| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **Adroddiad i / Report to:** | Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad / Date:** | 8fed Hydref, 2012 |
| **Pwnc / Subject:** | Adroddiad Rheoli Perfformiad Chwarter 1 |
| **Deilyddion Portffolio / Portfolio Holder(s):** | John Chorlton |
| **Swyddog Cyfrifol / Lead Officer(s):** | Pennaeth Polisi |
| **Swyddogion Cyswllt / Contact Officer** | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglenni |

## 1. Natur a rheswm dros adrodd

1.1 Yn unol â'r Fframwaith Rheoli Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol, mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cynnydd a wnaed o ran perfformiad Cyngor yn erbyn trefniadau a gynlluniwyd ar draws meysydd allweddol fel yr amlinellir yn y Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2012/15. Mae'r meysydd allweddol hynny (Blaenoriaethau Gwella) fel a ganlyn -

1.1.1 *Gwella'r Gwasanaethau Plant - i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth ac i hyrwyddo eu lles, annibyniaeth a sefydlogrwydd.*

1.1.2 *Adfywio ein Cymunedau – i atal digartrefedd ac i gwrdd ag anghenion tai ac anghenion cysylltiedig pobl ddigartref.*

1.1.3 *Gwelliannau Llywodraethu Corfforaethol – i sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd yn llawn a'i addewid i hyrwyddo a diogelu buddiannau'r Ynys, ei dinasyddion a'i chymunedau.*

1.1.4 *Gwireddu ein cytundeb canlyniadau - i sicrhau bod y Cyngor Sir yn alinio ei hun â nodau Llywodraeth Cymru ac yn gweithio mewn partneriaeth i gwrdd â nhw.*

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn fodd i'r Cyngor bwyso a mesur y cynnydd a wnaed yn erbyn y trefniadau a gynlluniwyd ac yn galluogi'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i gyflawni ei swyddogaeth rheoli perfformiad a sgriwtini.

1.3 Lle nodwyd risgiau i berfformiad, sefydlir mesurau lliniarol gan y swyddogion. Y mesurau lliniarol a amlinellir yn yr adroddiad yw'r rheini lle mae angen trafodaeth i sicrhau ein bod yn gwneud popeth posib i roi sylw i faterion perfformiad ac o ganlyniad gofynnir i'r Pwyllgor eu hystyried a mynd ar drywydd unrhyw faterion perfformiad gyda'r Pennaeth Gwasanaeth Priodol.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r sefyllfa fel yr oedd hi ar ddiwedd Chwarter 1 (2012/13) yn dilyn y rownd gyntaf o'r trefniadau monitro perfformiad chwarterol.

1.5 Cyflwynir adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (8 Hydref 2012) i roi darlun o berfformiad y Cyngor yn erbyn y trefniadau a gynlluniwyd yn y Cynllun Busnes Corfforaethol yn ystod 2011/12.

## 2. Beth sy'n cael ei fesur a pham

2.1 Mae'r cyfarfodydd monitro perfformiad chwarterol wedi eu strwythuro i gael sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud cynnydd yn erbyn ei drefniadau blynyddol cynlluniedig.

2.2 Mae strwythur y cyfarfodydd rheoli perfformiad chwarterol yn delio gyda -

2.2.1 Adrodd ar berfformiad yn erbyn y Cynllun Busnes Corfforaethol (gan gynnwys Blaenoriaethau Gwella - gweler 1.1.1 - 1.1.4)
2.2.2 Asesiad Risg o Waith y Gwasanaethau (gan gynnwys gweithgareddau rheoleiddiol)
2.2.3 Gwariant Ariannol yn erbyn y Gyllideb (gan gynnwys cynnydd ar weithredu arbedion)
2.2.4 Cynnydd a chynigion mewn perthynas â phrosiectau mawr.

## 3. Manylion yr Adroddiad

3.1 Cyflwynir manylion yr adroddiad yn unol â graddfa sgorio CAG fel yr amlinellwyd hi gan y Comisiynwyr yn ystod Chwarter 2 (2011/12) i roi darlun clir (yn ôl côd lliwiau) o'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â pherfformiad. Mae Atodiad 1 yn darparu gwybodaeth am eithriadau ynghylch pob maes perfformio allweddol, gan ganiatáu i aelodau a swyddogion ganolbwyntio ar wendidau cyfredol.

3.2 Yn gryno, y meysydd hynny y mae angen cymryd camau yn eu cylch yw –

3.3 *Gwella'r Gwasanaethau Plant* – y risg goch fwyaf sylweddol yn ystod Chwarter 1 oedd Recriwtio a Chadw Staff i sicrhau cynaliadwyedd y newid mewn diwylliant. Cytunwyd ar y strategaeth liniarol gan y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Plant ond mae angen ei chadarnhau yn gorfforaethol er mwyn bwrw ymlaen. Cyflwynwyd adroddiad ar y mater i'r Bwrdd Cynaliadwyedd (1 Hydref 2012).

3.4 *Adfywio Cymunedau* – mae casglu a rheoli data gan y Gwasanaethau Tai, ynghyd ag arbenigedd mewnol, yn ymddangos fel risg ambr sy'n cael ei lliniaru gan y Pennaeth Gwasanaeth trwy gynnal ymarfer ailstrwythuro, cyflwyno fframwaith goruchwylio a sefydlu model TG newydd i gynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau.

3.5 *Gwelliannau Llywodraethu Corfforaethol* – mae cynaliadwyedd y trawsnewid i'r dyfodol yn risg, ynghyd â phenodi Pennaeth Adnoddau ac ailstrwythuro Cyllid a TGCh. Fodd bynnag, y camau lliniaru a sefydlwyd yw gwneud rhagor o waith ailstrwythuro yn ystod Chwarter 2 a chwblhau'r broses benodi mewn perthynas â'r Pennaeth Adnoddau. Gwendid arall sy'n codi o'r trefniadau monitro yn Chwarter 1 yw'r trefniadau cynllunio busnes a rheoli perfformiad a'r ffaith nad yw'r cynlluniau darparu gwasanaeth wedi eu cyflwyno o fewn yr amserlenni cynllunio corfforaethol a'r angen i gael eglurder ynghylch rheoli risgiau a'u cyfeirio'n uwch i fyny. Sefydlir y camau lliniarol yn ystod Chwarter 2 i gyflwyno systemau cynllunio busnes, rheoli perfformiad a rheoli risg integredig yn yr Awdurdod.

3.6 *Gwireddu ein Cytundebau Canlyniadau* - tanberfformiad yn erbyn targedau mewn perthynas ag OA2 (gwasanaeth Teleofal) ac OA 3 (Taith i Waith). Mae pryder hefyd nad yw'r Cyngor hyd yma wedi cytuno ar dargedau penodol ar gyfer blwyddyn olaf y cytundeb gyda Llywodraeth Cymru ac mae angen cymryd camau cywiro a thrafodaeth yn ystod Chwarter 2. Mae mesurau asesu sy'n gysylltiedig ag OA5 (Cyraeddiadau Addysgiadol) yn peri anhawster yn yr ystyr na ellir cadarnhau canlyniad y flwyddyn flaenorol tan wythnos olaf Chwarter 2.

3.6.1 Mae'r materion uchod (pwynt 3.6) yn ymwneud â chwrdd â thargedau'r Cytundeb Canlyniadau ac maent yn achos pryder y byddai'r Pwyllgorau Sgriwtini perthnasol yn dymuno eu hystyried gan y byddai methiant i gwrdd â chytundebau canlyniadau, o bosib, yn arwain at golli grant yn ystod 2012/13. Yn seiliedig ar berfformiad 2010/11, byddai cyflawniadau yn erbyn y trefniadau a gynlluniwyd yn golygu derbyn grant o 75%.

## 4. Trosolwg Ariannol (Gwariant yn erbyn y Gyllideb)

4.1 Mae pedwar gwasanaeth yn wynebu gorwariant posib: Addysg - Integreiddio Uwchradd; Lleoliadau Gwasanaethau Plant; Ailfodelu Gwasanaethau Oedolion; Posibilrwydd o Allanoli Gwasanaethau Hamdden. Gallai'r rhain fod cymaint ag £1.8m. Nodwyd y rhain fel meysydd risg ac mae trefniadau rheoli prosiect wedi eu sefydlu neu wrthi'n cael eu sefydlu.

4.2 Rhagwelir y bydd gorwariant o £245k yn y cyllidebau risg corfforaethol, unwaith eto o ganlyniad i leoliadau gan y Gwasanaethau Plant. Dau faes arall sy'n peri risg i'r Cyngor yw'r debyd dreth Gyngor - sydd o dan bwysau oherwydd amgylchiadau economaidd; a budd-dal tai, lle nad yw mathau penodol o lety ar gyfer pobl ddigartref yn gymwys bellach i dderbyn cymhorthdal yn dilyn newidiadau i'r rheoliadau.

4.3 Disgwylir y bydd llithriad ar yr agweddau corfforaethol ar y rhaglen arbedion yn arwain at ddiffyg o £460k. Rhagwelir y bydd y gronfa wrth gefn a neilltuwyd i'r pwrpas yn y gyllideb gyfredol yn cwrdd yn rhannol â'r diffyg hwn a'r costau staffio nad oedd modd eu rhagweld oherwydd y llithriad gyda'r rhaglen ddiswyddo. Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd y gronfa a neilltuwyd i gefnogi'r rhaglen ddiswyddo fel rhan o'r rhaglen arbedion yn ddigonol.

## 5. Materion Rheoleiddio

**5.1** Mae gwaith y Cyngor mewn perthynas ag Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei gynnwys yn ein blaenoriaethau gwella ac, o'r herwydd, cyflwynir adroddiadau gwaith i'r Bwrdd Cynaliadwyedd yn rheolaidd.

**5.2** Mae materion sydd yn codi o'r Arolygiad o'r Gwasanaethau Plant gan AGGCC hefyd wedi eu cynnwys yn ein blaenoriaethau gwella ac adroddir yn rheolaidd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella i'r Bwrdd Cynaliadwyedd a'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol.

**5.3** Yn ogystal, yn y trefniadau monitro perfformiad ar gyfer Chwarter 1 dygwyd sylw at y ffaith bod Estyn wedi cynnal archwiliad rheoleiddiol a bod disgwyl adroddiad drafft. Gwneir trefniadau i fonitro cynnydd yn erbyn yr adroddiad hwn yn gorfforaethol trwy'r Bwrdd Cynaliadwyedd i'r dyfodol.

## 6. Ymgynghori

6.1 Rhoddodd y Tîm Uwch Arweinyddiaeth sylw i ddrafft o'r adroddiad hwn yn ystod yr wythnos a oedd yn cychwyn 24 Medi 2012 a chyflwynir eu sylwadau i'r Bwrdd Cynaliadwyedd a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystod mis Hydref.

**APPENDIX 1 - BLAENORIAETH GWELLA 1: GWELLA GWASANAETHAU PLANT**

**IMPROVEMENT PRORITY 1: IMPROVE CHILDREN'S SERVICES**

| **Blaenoriaeth / Priority** | **Statws RAG Q4 Status** | **Trend RAG Q1 Status** | **Risgiau / Risks** | **Lliniaru / Mitigation** |
|---|---|---|---|---|
| Lle gall plant fod yn gymwys, eu bod yn derbyn ymateb da ac amserol i'w hanghenion.<br><br>Where children may be eligible, they receive a good and timely response to their needs. | | R | Cynaliadwyedd y newid yn risg sylweddol y mae angen gwneud rhywbeth yn ei gylch o ran apwyntio a chynnal staff<br><br>Sustainability of change a key risk which requires action with regards to recruitment and retention | Perfformiad yn y flwyddyn wedi dangos parhad yn yr hyn a welwyd ddiwedd llynedd. Adroddiad pellach ar waith y strategaeth apwyntio yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cynaliadwyedd 17.9.12<br><br>Performance in the year has generally continued with the improvements shown at the end of last year. Further report on strategy to deal with R&R being presented to Sustainability Board 17.9.12 |
| Disgwyliadau clir i staff o ran gofynion a safonau.<br><br>Clear expectations of staff in respect of requirements and standards | | A | Ymgorffori ethos datblygiad personol o fewn y gwasanaeth<br><br>Embedding of personal development ethos within Service | Rhaglenni arfarnu a datblygiad personol wedi symud yn ei flaen, gwaith pellach ar ddatblygu polisïau a gweithdrefnau newydd.<br><br>Programmes of appraisal and personal development have progressed, as has work on developing new policies and procedures. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Bod aelodau a’r uwch reolwyr gyda chyfrifoldeb corfforaethol yn deall rôl a swyddogaeth y Gwasanaethau Plant, pa mor dda y maent yn cwrdd ag anghenion yn lleol ac yn rhoddi iddy y flaenoriaeth briodol.<br><br>Members and senior managers with corporate responsibilities understand the role and function of the Children Services, how well they are meeting needs locally and give them appropriate priority | | A | Hysbysu Aelodau ac Uwch Reolwyr o rôl a swyddogaeth y Gwasanaeth<br><br>Informing Members and Senior Managers of role and function of Service | Cynnydd o ran hysbysu aelodau drwy weithdai ac ymgysylltu gwell gydag uwch reolwyr. Mae mwy i’w wneud.<br><br>Progress in informing members through workshops and improved engagement with senior managers. More remains to be done |
| Darparu cefnogaeth briodol i sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwell cyfleoedd mewn bywyd yn ystod eu cyfnod mewn gofal ac ar ôl gadael gofal.<br><br>Provide appropriate support to enable improved life chances for young people during the care episode and leaving care | | A | Cynnal y gwelliannau yn y ddarpariaeth<br><br>Maintaining improvements in delivery | Mesuriadau sy’n cydnabod bod ein gwaith gyda phlant y gofelir amdanynt a’r rhai sy’n gadael gofal yn dangos gwelliant yn y ddarpariaeth. Ond yr un modd â’r holl agweddau eraill ar ddarparu gwasanaethau, rhaid cynnal y gwelliant yn y dyfodol<br><br>Measures that acknowledge our work with those looked after and those leaving care reflect improvements in delivery. As with all other aspects of improvement in service delivery this needs to be maintained. |
| | | | Dim cytundeb corfforaethol ar strategaeth | Strategaeth wedi’i chymeradwyo gan Fwrdd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynnal gweithlu sefydlog sy'n cael ei oruchwyli reoli a'i gefnogi i gyflawni ei gyfrifoldebau o rai amddiffyn plant yn effeithiol.<br><br>Maintain a stable workforce who are supervised, managed and supported to carry out their safeguarding responsibilities effectively. | | R | apwyntio sydd yn peri risg sylweddol i'r capasiti i ddarparu a chynnal newid.<br><br>No Corporate agreement on R&R strategy resulting in delays to recruitment which poses a significant risk to the capacity to deliver and sustain change. | Gwella'r Gwasanaeth ac i gael ei thrafod gan yr UDA am arweiniad a chyfeiriad yn ystod Ch2<br><br>R&R Strategy approved by the Service Improvement Board and to be discussed by SLT during Q2 for guidance & direction. |
| Gweithredu'r Strategaeth Comisiynu Gwasanaeth.<br><br>Implement the Service Commissioning Strategy | | A | Y strategaeth gomisiynu i'w chytuno<br><br>Commissioning Stratgey to be agreed | Y strategaeth gomisiynu wedi'i chytuno yn dilyn ymgysylltiad effeithiol. Gweithrediad yn ystod Ch2 /3 & 4.<br><br>Commissioning Strategy Agreed after effective engagement. Implementation to follow during Q2/3&4. |
| Sefydlu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd yn gadarn m perfformiad a sicrhau bod y sefydliad yn dysgu.<br><br>Embed the Quality Assurance Framework into working practices to implement performance management and secure organisational learning | | A | Datblygu a gweithredu'r fframwaith<br><br>Development and implementation of framework | Y fframwaith wedi'i ddatblygu – gweithrediad i ddilyn.<br><br>QAF developed – Implementation to follow. |

**BLAENORIAETH GWELLA 2: ADFYWIO EIN CYMUNEDAU**

**IMPROVEMENT PRORITY 2: REGENERATING OUR COMMUNITIES**

| **Blaenoriaeth / Priority** | **Statws RAG Q4 Status** | **Trend RAG Q1 Status** | **Risgiau / Risks** | **Lliniaru / Mitigation** |
|---|---|---|---|---|
| Darparu opsiynau tai integredig a darparu cyngor i'r cyhoedd i fynd i'r afael â'u hanghenion tai ac yn hwyluso digartrefedd<br><br>To provide an integrated housing options and advise service to the public which empowers members of the public to address their housing needs and facilitates the prevention of homelessness | | G | Gwefan newydd Opsiynau Tai<br><br>New Housing Options website | Mae'r system yn fyw. Gwaith datblygu pellach i'w wneud yn ystod Ch2<br><br>System is live. Further development work needed during Q2 |
| Gweithredu mesuriadau i ymdrin â lliniaru effaith y mesurau diwygio lles ar gynaliadwyedd tenantiaethau rhentu preifat<br><br>To implement measures to address and mitigate the impact of welfare reforms on the sustainability of private rented tenancies | | G | Achos posib digartrefedd yn dilyn newid i'r budd-dal ar gyfer y 'gyfradd ystafell sengl'<br><br>Cause of homelessness may have been caused by the single room rate benefit amendment | Cyswllt rheolaidd gyda thenantiaid a landlordiaid i liniaru'r risg<br><br>Regular contact with tenants and landlords to mitigate the risk |
| Gwella gwybodaeth ac arbenigedd swyddogion i ddarparu dewisiadau tai cyngor i'r cyhoedd | | G | Amserlen hyfforddiant a goruchwyliaeth i'w weithredu | Cyfarfodydd rheolaidd 1 i 1 yn ogystal â 3 diwrnod o hyfforddiant ar opsiynau tai wedi'u cynnal |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| To improve the knowledge and expertise of Officers providing housing options advice to the public | | | Supervision and training schedule implemented | Regular 1 to 1's and 3 days training on housing options implemented |
| Sicrhau adborth gan gwsmeriaid i lywio datblygiad y gwasanaeth<br><br>To obtain feedback from customers to inform service development | | G | Cwblhau a derbyn canlyniadau arolwg cwsmer<br><br>Completion and receipt of customer satisfaction survey | Yr arolwg wedi'i gwblhau sydd yn cynnwys cyngor ar opsiynau tai a'r swyddogaethau o ran digartrefedd<br><br>Survey implemented which incorporates both the housing options advice and homelessness functions |
| Gwella'r broses o gasglu a storio data<br><br>To improve the collection and storage of data | | A | Modiwl digartrefedd i'w gynnwys yn rhan o'r system rheoli tai Orchard<br><br>Homelesseness IT module incoporated in the Orchard housing management system | Y modiwl wedi'i weithredu mewn amgylchedd TEST – hyfforddiant pellach i'w gynnal yn ystod Ch2<br><br>Module implemented in the TEST environment – ongoing training sessions taking place during Q2 |
| I wella gwybodaeth ac arbenigedd y swyddogion sy'n cynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau y cyfarfyddir ag ymrwymiadau'r Cyngor<br><br>To improve the knowledge and expertise of those Officers undertaking assessments and making decisions, to ensure the Council's obligations are met | | A | Adolygiadau digartrefedd Adran 202 yn cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol a wnaed yn 2012/13<br><br>Section 202 Homelessness reviews confirming original decision in 2012/13<br><br>Implementation of staff supervision framework | Fframwaith wedi'i gwblhau – i'w gyflwyno yn ystod Ch2/3<br><br>Framework completed – to be introduced in Q2/3 |
| Adolygu a gweithredu gwelliannau i brosesau | | A | Parhau i fod angen trefn archifo ar gyfer | I'w weithredu yn Ch2/3 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| mewnol fel y gall swyddogion weinyddu'r ceisiadau am gymorth digartrefedd yn fwy effeithiol<br><br>To review and implement improvements to internal processes enabling Officers to more effectively administer applications for homelessness assistance | | | cofnodiadau papur hanesyddol<br><br>Archiving procedure of historical paper-based records outstanding | To be actioned during Q2/3 |
| Adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau sydd ar gael yn yr ardal i ymdrin â digartrefedd a thueddiadau digartrefedd yn yr ardal<br><br>Review the provision of services available in the district to address homelessness and trends in the nature and extent of homelessness in the district | | A | Canfod lefelau cywir o ddigartrefedd ym Môn<br><br>Obtaining accurate reflection of levels of homelessness in Anglesey | Uned Polisi Strategol i'w sefydlu yn ystod Ch2 fel rhan o ailstrwythuro a moderneiddio'r Gwasanaeth<br><br>Strategic & Policy Unit to be established during Q2 as part of Service re-structurng and modernisation / transformation |
| I leihau, lle bynnag y bo modd, ddibyniaeth y Cyngor ar lety dros dro a'r mathau mwyaf anaddas o lety dros dro i fodloni dyletswyddau tai<br><br>To reduce wherever possible, the Council's reliance on temporary accommodation and the most inappropriate forms of temporary accommodation to meet housing duties | | G | Dim risgiau wedi'u hadnabod<br><br>No risks identified | |
| Sicrhau bod cwsmeriaid bregus yn cael cymorth priodol<br>Ensuring vulnerable customers access appropriate support | | G | Dim risgiau wedi'u hadnabod<br><br>No risks identified | |

**BLAENORIAETH GWELLA 3: GWELLA RHEOLAETH GORFFORAETHOL**

**IMPROVEMENT PRORITY 3: CORPORATE GOVERNANCE IMPROVEMENTS**

| **Blaenoriaeth / Priority** | **Statws RAG Q4 Status** | **Trend RAG Q1 Status** | **Risgiau / Risks** | **Lliniaru / Mitigation** |
|---|---|---|---|---|
| 1. Safonau Ymddygiad Aelodau a Swyddogion / Standards of Conduct and behaviour of Members and Officers | A | G ⇧ | Resistance to change and professionalisation of Members<br><br>Gwrthwynebiad i newid a phroffesiynoli Aelodau | Continue with *successful* implementation of 11/12 pilot project with regards to Member PDR's and enhanced CRB forms<br><br>Parhau â gweithrediad *llwyddiannus* y prosiect peilot yn 2011/12 o ran gwerthusiad Aelodau a chwblhau ffurflenni manwl CRB |
| 2. Datblygu partneriaethau effeithiol rhwng y Cyngor a'r sectorau cyhoeddus a preifat yn lleol, rhanbarthol a cenedlaethol / Develop effective partnerships between Council and the public and private sectors at a local, regional and national level | A | A ⇔ | Prosiect rhesymoli partneriaethau yn unol â chanllawiau'r llywodraeth yn disgwyl apwyntiad arweinydd prosiect<br><br>Perchnogaeth cynllun gwaith yn deillio o gytundeb cyfamod cymunedol y Lluoedd Arfog<br><br>Gwasanaeth Plant yn parhau i fod yn risg – cynaliadwyedd i'r dyfodol | Proses apwyntio wedi'i hamserlennu ar gyfer Ch2<br><br>Cynllun gwaith yn cael ei ddatblygu gyda mewnbwn rheolaidd partneriaid i sicrhau perchnogaeth<br><br>Strwythur newydd yn cael ei weithredu sy'n sicrhau cydbwysedd o ran cryfhau'r rheng flaen ar gyfer asesu a diogelu tra ar yr un |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | pryd yn mynd i'r afael â'r angen i wella ansawdd |
| | | | Partnership rationalisation project in line with WG guidelines awaiting appointment of project lead | Appointment process scheduled for Q2 |
| | | | Ownership of work-plan following agreement on Armed Forces Community Covenant | Action plan being developed with regular partner liaison being action to ensure ownership |
| | | | Children's Service remains a risk – sustainability into future | New structure being implemented which strikes a balance between strengthening the front line for assessment and protection whilst addressing the investments needed for quality improvement |
| 3. Effeithiolrwydd Sgrwtini / Effectiveness of Scrutiny | G | G  | Codwyd disgwyliadau yn ystod rhan 2 o ddatblygiad Sgriwtini sy'n cael ei adlewyrchu mewn mesurau newydd sydd wedi tangyflawni ychydig -<br><br>Ymgysylltiad Aelodau yn disgyn o dan y targed cyfredol<br><br>Expectations raised during phase 2 of development and reflected in new measures which have slightly underachieved -<br><br>Member engagement below target level | UDA i gwrdd â Chadeiryddion Sgriwtini i fonitro'r effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau yn dilyn newid yn nifer y cyfarfodydd a datblygiad Byrddau Tasg a Gorffen Sgriwtini<br><br>SLT to meet with Scrutiny Chairs regularly to monitor impact on service delivery following change in frequency of meetings and development of Task and finish Scrutiny Boards |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4. Cydlyniad, trefniadaeth ac effeithiolrwydd Uwch Dim Rheoli'r Cygnor / The organisation, coherence and effectiveness of the Council's senior management Team | A | A | Ffactor amser o ran UDA yn ymsefydlu o fewn arferion gweithio'r awdurdod<br><br>Time factor of SLT bedding into working practices of Organisation | Rhaglennwyd gweithdai i Swyddogion ag Aelodau'r Pwyllgor Gwaith a chyfarfodydd adeiladu tîm ar gyfer yr Uwch Dim Arweinyddiaeth yn Ch2<br><br>Officer & Executive workshops and Senior Leadership team building meetings programmed for Q2 |
| 5. Effeithlonrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor / Effectiveness of the Council's Standards Committee | G | G | Cynhaliwyd gwrandawiad y PS y tu allan i'r amser targed oherwydd nad oedd partïon a chynghorwyr cyfreithiol ar gael<br><br>SC Hearing conducted outside target time owing to unavailability of parties and legal advisors. | Mabwysiadu trefn newydd ar gyfer gwrandawiadau<br><br>Adoption of new procedure for hearings |
| 6. Adnabod ac ystyried blaenoriaethau a barn dinasyddion Môn / Fully engage with and reflect the views and priorities of the citizens of Anglesey | G | G | Disgwyl arweiniad parthed penderfyniad y Comisiwn Ffiniau | Mabwysiadu elfennau rheolaeth prosiect i gynllunio'r hyn fydd ei angen rhwng dyddiad y penderfyniad a'r etholiad lleol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ⟺ | Awaiting decision of the Boundary Commissions findings | Adoption of project management principles to highlight planned arrangements in time for local elections |
| 7. Gwella capasiti, ansawdd a rheolaeth y gwasanaethau corfforaethol / Improve the capacity, quality and management of corporate support services | A | A ⟺ | Cynaliadwyedd y newid i'r dyfodol<br><br>Apwyntiad Pennaeth Adnoddau<br><br>Yr ad-drefnu cyfredol o Cyllid a TG ddim yn cael ei gwblhau ar amser<br><br>Sustainability of changes into the future<br><br>Appointment of Head of Resource<br><br>Current re-structuring of Finance and ICT not completed on time | Gwaith pellach ei angen i gyfleu sicrwydd i gyflwyno'r newid yn gynaliadwy<br><br>Apwyntiadau ac ad-drefnu i ddigwydd yn ystod Ch2.<br><br>Further work needed to provide assurance of it being a sustainable change<br><br>Appointment and re-structuring to be completed during Q2. |
| 8. Cyflwyno system rymus ar gyfer rheolaeth perfformiad, prosiect a risg / Introduce a robust process for the performance, project and risk management | A | A ⟺ | Cynlluniau Darparu Gwasanaeth ddim yn cael eu darparu o fewn yr amserlen cynllunio corfforaethol.<br><br>Proses rheolaeth ac uwchraddio risgiau | Cyflwyno'r FfRhP drwyddo draw / Rhannu gwybodaeth bellach mewn cyfarfodydd chwarterol / atgoffa drwy e-bost<br><br>Canllawiau rheolaeth risg i'w cytuno gan yr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | angen ei ddatblygu.<br><br>Service Delivery Plans not being submitted in line with corporate planning timescales<br><br>Escalation and management processing of risks in need of development. | UDA a datblygiad pellach o'r gofrestr risg corfforaethol.<br><br>PMF roll out / information provided @ quarterly meetings / e-mail reminders<br><br>Risk Management guidelines to be agreed by SLT and further refinement of corporate risk register. |
| 9. Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol / Relationship between Members and Political Groups | A | G ⇧ | Pwyllgorau yn parhau i weithredu yn groes i'r Protocol Dyraniadau.<br><br>Committees continuing to operate contrary to Allocations Protocol. | Cytundeb newydd wedi ei gytuno ym mis Mai 2012 ac ar waith yn unol â Mesur Llywodraeth Lleol 2011<br><br>New deal approved May 2012 and fully implemented in accordance with Local Government Measure 2011. |

**BLAENORIAETH GWELLA 4: CYFLAWNI EIN CYTUNDEB CANLYNIADAU**

**IMPROVEMENT PRORITY 4: REALISATION OF OUR OUTCOME AGREEMENT**

| **Blaenoriaeth / Priority** | **Statws RAG Q4 Status** | **Trend RAG Q1 Status** | **Risgiau / Risks** | **Lliniaru / Mitigation** |
|---|---|---|---|---|
| OA 1 – Improved Health through the life course<br><br>CC1 – Gwell iechyd drwy gydol oes | | | Unconfirmed targets for final Year<br><br>Targedau heb eu cadarnhau ar gyfer y flwyddyn derfynol | Negotiations between Council and Government to be concluded during Q2<br><br>Trafodaethau rhwng y Cyngor a'r Llywodraeth i gael eu cwblhau yn ystod Ch2 |
| OA 2 – Support is provided so that people can live independent lives<br><br>CC2 – Darperir cefnogaeth fel y gall pobl fyw bywydau annibynnol | | | Performance identifies that achievement is behind with regards to some targets<br><br>Perfformiad yn nodi bod cyflawniad ar ei hôl hi o ran rhai targedau | Remedial action in place by Service + renegotiation exercise on-going<br><br>Camau gwella yn eu lle gan y Gwasanaeth + ymarfer yn mynd rhagddo o ran ail-drafod |
| OA 3 – Fewer people Living in poverty<br><br>CC3 – Llai o bobl yn byw mewn tlodi | | | Underachievement against targets for Q1<br><br>Tan-gyflawniad yn erbyn targedau ar gyfer Ch1 | Decision pending final confirmation of targets for Taith i Waith element of work.<br><br>Penderfyniad i gael ei wneud ar ôl derbyn targedau ar gyfer elfen Taith i Waith y gwaith . |
| OA 4 – Have a comprehensive range of | | | No risks identified / Actions complete | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Education & Learning Opportunities<br><br>CC4 – Bod ag amrediad cynhwysfawr o Gyfleoedd Dysgu | | | Dim risgiau wedi eu nodi / Camau gweithredu wedi eu cwblhau | |
| OA 5 – Educational Attainment Improves<br><br>CC5 – Cyrhaeddiad Addysgol yn gwella | | | Not possible to assess educational targets during current year.<br><br>Dim yn bosibl asesu targedau addysgol yn ystod y flwyddyn gyfredol | RAG rating based on 1st year out-turn<br><br>Sgôr CAG yn seiliedig ar ganlyniadau'r flwyddyn gyntaf |
| OA 6 – Less Homelessness<br><br>CC6 – Llai o ddigartrefedd | | | No risks identified / Action complete<br><br>Dim risgiau wedi eu nodi / Camau gweithredu wedi eu cwblhau | |
| OA 7 – Waste and Natural Resource Efficiency<br><br>CC7 - Effeithlonrwydd o ran Gwastraff ac Adnoddau Naturiol | | | No risks identified / Actions complete<br><br>Dim risgiau wedi eu nodi / Camau gweithredu wedi eu cwblhau | |
| OA 8 – Enhancing the quality and enjoyment of the natural environment<br><br>CC8 – Gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol a'r mwynhad ohono | | | No risks identified / Actions complete<br><br>Dim risgiau wedi eu nodi / Camau gweithredu wedi eu cwblhau | |
| OA 9 – More People attend and take part in the Arts, Cultural Activities and the Historic | | | No risks identified / Actions complete | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Environment<br><br>CC9 – Mwy o bobl yn mynychu ac yn cymryd rhan yn y Celfyddydau, Gweithgareddau Diwylliannol a’r Amgylchedd Hanesyddol | | | Dim risgiau wedi eu nodi / Camau gweithredu wedi eu cwblhau | |
| OA 10 – More efficient and effective Asset Management<br><br>CC 10 – Rheoli Asedau’n fwy effeithlon ac effeithiol | | | Information regarding sales of capital receipts not received during Q1<br><br>Gwybodaeth ynghylch derbyniadau cyfalaf heb ei derbyn yn ystod Ch1 | To evaluate capital receipts received during Q2<br><br>Asesu’r derbyniadau cyfalaf a gafwyd yn ystod Ch2 |